OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2018 Rhif 650 (Cy. 122)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd Amrywiol) (Cymru) 2018

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi'r ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru ym maes iechyd anifeiliaid, gan ddisodli'r ffioedd presennol yn Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd Amrywiol) (Cymru) 2013 (O.S. 2013/1241 (Cy. 133)). Cesglir y ffioedd gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) ar ran Gweinidogion Cymru. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Mae'r ffioedd yn rheoliad 4 ac Atodlen 1 yn daladwy mewn perthynas â gweithgareddau sy'n ofynnol o dan Reoliad (EC) Rhif 2160/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reoli salmonela a chyfryngau milheintiol penodedig eraill a gludir mewn bwyd (OJ Rhif L 325, 12.12.2003, t. 1) ac yn unol â Rhaglenni Cenedlaethol Rheoli Salmonela ar gyfer dofednod.

Mae'r ffioedd yn rheoliad 5 ac Atodlen 2 yn daladwy mewn perthynas â chymeradwyaethau at ddiben y cynllun iechyd dofednod a sefydlwyd o dan Gyfarwyddeb y Cyngor 2009/158/EC ar amodau iechyd anifeiliaid, sy'n llywodraethu'r fasnach mewn dofednod ac wyau deor o fewn y Gymuned, a mewnforion dofednod ac wyau deor o drydydd gwledydd (OJ Rhif L 343, 22.12.2009, t. 74) a Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 (O.S. 2011/2379 (Cy. 252)).

2018 No. 650 (W. 122)

ANIMALS, WALES

ANIMAL HEALTH

The Animal Health (Miscellaneous Fees) (Wales) Regulations 2018

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations set out fees payable to the Welsh Ministers in the field of animal health, replacing the existing fees in the Animal Health (Miscellaneous Fees) (Wales) Regulations 2013 (S.I. 2013/1241 (W. 133)). The fees are collected by the Animal & Plant Health Agency (APHA) on behalf of the Welsh Ministers. These Regulations apply in relation to Wales.

The fees in regulation 4 and Schedule 1 are payable in relation to activities required under Regulation (EC) No 2160/2003 of the European Parliament and of the Council on the control of salmonella and other specified food-borne zoonotic agents (OJ No L 325, 12.12.2003, p. 1) and in accordance with Salmonella National Control Programmes for poultry.

The fees in regulation 5 and Schedule 2 are payable in relation to approvals for the purpose of the poultry health scheme established under Council Directive 2009/158/EC on animal health conditions governing intra-Community trade in, and imports from third countries of, poultry and hatching eggs (OJ No L 343, 22.12.2009, p. 74) and the Trade in Animals and Related Products (Wales) Regulations 2011 (S.I. 2011/2379 (W. 252)).

Mae'r ffioedd yn rheoliad 6 ac Atodlen 3 yn daladwy mewn perthynas â chymeradwyaethau at y diben o gael semen buchol yn unol â Rheoliadau Semen Buchol (Cymru) 2008 (O.S. 2008/1040 (Cy. 110)), a ddiwygir gan reoliad 6.

The fees in regulation 6 and Schedule 3 are payable in relation to approvals for the purpose of obtaining bovine semen in accordance with the Bovine Semen (Wales) Regulations 2008 (S.I. 2008/1040 (W. 110)), which are amended by regulation 6.

Mae'r ffioedd yn rheoliad 7 ac Atodlen 4 yn daladwy mewn perthynas â chymeradwyaethau at y diben o gael semen moch yn unol â Rheoliadau Ffrwythloni Moch yn Artiffisial (Cymru a Lloegr) 1964 (O.S. 1964/1172) a Rheoliadau Ffrwythloni Moch yn Artiffisial (EEC) 1992 (O.S. 1992/3161).

The fees in regulation 7 and Schedule 4 are payable in relation to approvals for the purpose of obtaining porcine semen in accordance with the Artificial Insemination of Pigs (England and Wales) Regulations 1964 (S.I. 1964/1172) and the Artificial Insemination of Pigs (EEC) Regulations 1992 (S.I. 1992/3161).

Mae'r ffioedd yn rheoliad 8 ac Atodlen 5 yn daladwy mewn perthynas â chymeradwyaethau at y diben o gasglu, cynhyrchu a throsglwyddo embryonau buchol, yn unol â Rheoliadau Embryonau Buchol (Casglu, Cynhyrchu a Throsglwyddo) 1995 (O.S. 1995/2478).

The fees in regulation 8 and Schedule 5 are payable in relation to approvals for the purpose of collection, production and transfer of bovine embryos in accordance with the Bovine Embryo (Collection, Production and Transfer) Regulations 1995 (S.I. 1995/2478).

Mae'r ffioedd yn rheoliad 9 ac Atodlen 6 yn daladwy mewn perthynas ag arolygu llwythi o anifeiliaid byw mewn arolygfeydd ffin, yn unol â Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011.

The fees in regulation 9 and Schedule 6 are payable in relation to inspection of consignments of live animals at border inspection posts in accordance with the Trade in Animals and Related Products (Wales) Regulations 2011.

Mae rheoliad 10 yn dirymu'r darpariaethau ffioedd presennol yn Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd Amrywiol) (Cymru) 2013.

Regulation 10 revokes the existing fee provisions in the Animal Health (Miscellaneous Fees) (Wales) Regulations 2013.

Mae lefelau'r ffioedd y darperir ar eu cyfer yn yr offeryn hwn yn cynrychioli costau llawn adennill ffioedd, ac mae rhai o'r ffioedd yn gynnydd ar y ffioedd presennol.

The fee levels provided for in this instrument represent full cost recovery of fees, and some of the fees are increased from existing fees.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a Regulatory Impact Assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

2018 Rhif 650 (Cy. 122)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd Amrywiol) (Cymru) 2018

Gwnaed	*22 Mai 2018*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru	*30 Mai 2018*
Yn dod i rym	*30 Mehefin 2018*

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(**1**) at y dibenion o wneud Rheoliadau o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) ("Deddf 1972") mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf 1972, ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i ddehongli cyfeiriadau at offerynnau'r UE yn y Rheoliadau hyn fel cyfeiriadau at yr offerynnau hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan—

(a) adran 2(2) o Ddeddf 1972, a pharagraff 1A o Atodlen 2 iddi(**3**);

(**1**) O.S. 2010/2690.
(**2**) 1972 p. 68. Diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a chan adran 3(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7) a Rhan 1 o'r Atodlen iddi.
(**3**) Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51).

2018 No. 650 (W. 122)

ANIMALS, WALES

ANIMAL HEALTH

The Animal Health (Miscellaneous Fees) (Wales) Regulations 2018

Made	*22 May 2018*
Laid before the National Assembly for Wales	*30 May 2018*
Coming into force	*30 June 2018*

The Welsh Ministers are designated(**1**), for the purposes of making Regulations under section 2(2) of the European Communities Act 1972(**2**) ("the 1972 Act") in relation to the common agricultural policy of the European Union.

These Regulations make provision for a purpose mentioned in section 2(2) of the 1972 Act and it appears to the Welsh Ministers that it is expedient for references to EU instruments in these Regulations to be construed as references to those instruments as amended from time to time.

The Welsh Ministers make these Regulations in exercise of the powers conferred by—

(a) section 2(2) of, and paragraph 1A of Schedule 2 to, the 1972 Act(**3**);

(**1**) S.I. 2010/2690.
(**2**) 1972 c. 68. Section 2(2) was amended by section 27(1)(a) of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 (c. 51), and by section 3(3) of, and Part 1 of the Schedule to, the European Union (Amendment) Act 2008 (c. 7).
(**3**) Paragraph 1A of Schedule 2 was inserted by section 28 of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 (c. 51).

(b) adran 56(1) a (2) o Ddeddf Cyllid 1973(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**); ac

(c) adran 10(1) a (3)(c) o Ddeddf Iechyd a Lles Anifeiliaid 1984(**3**).

Yn unol ag adran 56(1) o Ddeddf Cyllid 1973, mae'r Trysorlys yn cydsynio i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud.

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd Amrywiol) (Cymru) 2018. Maent yn gymwys o ran Cymru, a deuant i rym ar 30 Mehefin 2018.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "arolygfa ffin" ("*border inspection post*") yr ystyr a roddir gan reoliad 11 o Reoliadau 2011;

ystyr "cynllun iechyd dofednod" ("*poultry health scheme*") yw'r cynllun iechyd dofednod a sefydlwyd o dan Erthyglau 2 a 6 o Gyfarwyddeb y Cyngor 2009/158/EC, ac Atodiad II iddi, ar amodau iechyd anifeiliaid, sy'n llywodraethu'r fasnach mewn dofednod ac wyau deor o fewn y Gymuned, a mewnforion dofednod ac wyau deor o drydydd gwledydd(**4**), ac a weithredir gan baragraff 4 o Atodlen 2 i Reoliadau 2011;

ystyr "llwyth" ("*consignment*") yw nifer o anifeiliaid o'r un rhywogaeth, sydd wedi eu cynnwys o dan yr un dystysgrif filfeddygol neu ddogfen filfeddygol;

ystyr "milfeddyg" ("*veterinary surgeon*") yw person a gofrestrir yn y gofrestr o filfeddygon a gedwir o dan adran 2 o Ddeddf Milfeddygon 1966(**5**);

(**1**) 1973 p. 51. Diwygiwyd is-adran (1) gan erthygl 6(1)(e) o O.S. 2011/1043.

(**2**) Yn rhinwedd adran 59(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**3**) 1984 p. 40; mae adran 10(8) yn diffinio'r "appropriate Minister" o ran Cymru fel yr Ysgrifennydd Gwladol at ddibenion adran 10. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd O.S. 1999/672. Mae'r swyddogaethau hynny bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**4**) OJ Rhif L 343, 22.12.2009, t. 74, fel y'u diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad Gweithredu'r Comisiwn Rhif 2011/879/EU (OJ Rhif L 345, 23.12.2011, t. 105).

(**5**) 1966 p. 36. Diwygiwyd adran 2 gan erthygl 12 o O.S. 2003/2919, a pharagraff 1 o'r Atodlen iddo, a chan erthygl 2 o O.S. 2008/1824, a pharagraff 2(a) a (b) o'r Atodlen iddo.

ystyr "Rheoliadau 1964" ("*the 1964 Regulations*") yw Rheoliadau Ffrwythloni Moch yn Artiffisial (Cymru a Lloegr) 1964(**1**);

ystyr "Rheoliadau 1992" ("*the 1992 Regulations*") yw Rheoliadau Ffrwythloni Moch yn Artiffisial (EEC) 1992(**2**);

ystyr "Rheoliadau 1995" ("*the 1995 Regulations*") yw Rheoliadau Embryonau Buchol (Casglu, Cynhyrchu a Throsglwyddo) 1995(**3**);

ystyr "Rheoliadau 2008" ("*the 2008 Regulations*") yw Rheoliadau Semen Buchol (Cymru) 2008(**4**);

ystyr "Rheoliadau 2011" ("*the 2011 Regulations*") yw Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011(**5**);

ystyr "swyddog milfeddygol" ("*veterinary officer*") yw milfeddyg a gyflogir fel y cyfryw gan Weinidogion Cymru; ac

ystyr "trydedd wlad" ("*third country*") yw gwlad ac eithrio Aelod-wladwriaeth.

Ad-dalu ffioedd

3. Os caiff unrhyw gais y mae ffi yn daladwy amdano o dan y Rheoliadau hyn ei dynnu'n ôl cyn penderfynu'r cais, rhaid i Weinidogion Cymru ad-dalu i'r ceisydd y gyfran honno o unrhyw ffi a dalwyd mewn cysylltiad â'r cais hwnnw sy'n rhesymol ym marn Gweinidogion Cymru, o ystyried unrhyw gostau rhesymol yr aed iddynt gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â'r cais.

Y rhaglenni cenedlaethol rheoli salmonela (milheintiau): ffioedd

4.—(1) Mae Atodlen 1 yn nodi'r ffioedd sy'n daladwy am weithgareddau a gynhelir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â rheoli *Salmonela* yn unol â'r rhaglen reoli genedlaethol berthnasol a sefydlwyd gan Reoliad (EC) Rhif 2160/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor, neu oddi tano, ar reoli salmonela a chyfryngau milheintiol penodedig eraill a gludir mewn bwyd(**6**).

(**1**) O.S. 1964/1172, y ceir diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**2**) O.S. 1992/3161.
(**3**) O.S. 1995/2478, y ceir diwygiad iddo nad yw'n berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**4**) O.S. 2008/1040 (Cy. 110); yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2013/398 (Cy. 48) ac O.S. 2013/1241 (Cy. 133).
(**5**) O.S. 2011/2379 (Cy. 252), y ceir diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**6**) Mae rhaglenni cenedlaethol rheoli salmonela ar gyfer ieir dodwy sy'n cynhyrchu wyau i'w bwyta gan bobl, ieir bridio, brwyliaid a thyrcwn; cynlluniwyd y rhaglenni i leihau nifer yr achosion o wahanol fathau o *Salmonela* sy'n arwyddocaol o ran iechyd y cyhoedd, yn unol â thargedau'r UE.

(2) Yn Atodlen 1—

(a) mae'r ffioedd sy'n daladwy gan y person sydd â gofal dros ddaliad dofednod am y gweithgareddau a bennir yng ngholofn 1 o Dabl 1 wedi eu pennu yn y cofnodion cyfatebol yng ngholofn 2 o'r Tabl hwnnw;

(b) mae'r ffioedd sy'n daladwy gan weithredwr labordy am y gweithgareddau a bennir yng ngholofn 1 o Dabl 2 wedi eu pennu yn y cofnodion cyfatebol yng ngholofn 2 o'r Tabl hwnnw; ac

(c) mae'r ffioedd sy'n daladwy gan y person sydd â gofal dros heidiau dofednod am y gweithgareddau a bennir yng ngholofn 1 o Dabl 3 wedi eu pennu yn y cofnodion cyfatebol yng ngholofn 2 o'r Tabl hwnnw.

(3) Mae i'r geiriau a'r ymadroddion a ddefnyddir yn Atodlen 1 yr un ystyr ag yn Rheoliad (EC) Rhif 2160/2003.

Y cynllun iechyd dofednod: ffioedd

5.—(1) Mae Atodlen 2 yn nodi'r ffioedd sy'n daladwy am weithgareddau a gynhelir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r cynllun iechyd dofednod(**1**).

(2) Yn Atodlen 2—

(a) mae'r ffioedd sy'n daladwy gan geiswyr am y gweithgareddau cymeradwyo a chofrestru a bennir yng ngholofn 1 o Dabl 1 wedi eu pennu yn y cofnodion cyfatebol yng ngholofn 2 o'r Tabl hwnnw; a

(b) mae'r ffioedd sy'n daladwy gan weithredwr labordy am y gweithgareddau a bennir yng ngholofn 1 o Dabl 2 wedi eu pennu yn y cofnodion cyfatebol yng ngholofn 2 o'r Tabl hwnnw.

Semen buchol: ffioedd

6.—(1) Mae Rheoliadau 2008 wedi eu diwygio yn unol â pharagraff (2).

(2) Yn lle rheoliad 41 rhodder—

> "**41.** Mae'r ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru fel y darperir gan reoliad 6(3) o Reoliadau Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd Amrywiol) (Cymru) 2018."

(**1**) Mae'r cynllun iechyd dofednod yn cynnig system gofrestru a chymeradwyo sy'n galluogi sefydliadau i wirhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth yr UE fel eu bod yn gymwys wedyn i allforio mwy nag 20 o gywion neu wyau deor i Aelod-wladwriaethau eraill yr UE. Yn ychwanegol, mae'n darparu ar gyfer cynnal profion ar hyfedredd y labordai sy'n profi samplau ar ran aelodau'r cynllun iechyd dofednod.

(3) Mae Atodlen 3 yn nodi'r ffioedd sy'n daladwy am weithgareddau a gynhelir gan Weinidogion Cymru o dan Reoliadau 2008; ac yn unol â hynny mae'r ffioedd sy'n daladwy gan geiswyr a gweithredwyr am y gweithgareddau a bennir yng ngholofn 1 o'r Tabl wedi eu pennu yn y cofnodion cyfatebol yng ngholofn 2 o'r Tabl hwnnw.

(4) Mae i'r geiriau a'r ymadroddion a ddefnyddir yn Atodlen 3 yr un ystyr ag yn Rheoliadau 2008.

Semen moch: ffioedd

7.—(1) Mae Atodlen 4 yn nodi'r ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â dyroddi trwyddedau neu gymeradwyaethau o dan Reoliadau 1964 neu Reoliadau 1992, a phrofion ac archwiliadau a gynhelir o dan y Rheoliadau hynny.

(2) Yn Atodlen 4 mae'r ffioedd sy'n daladwy gan y ceisydd am drwydded neu gymeradwyaeth ar gyfer y gweithgareddau a bennir yng ngholofn 1 o'r Tabl, neu gan ddeiliad trwydded neu gymeradwyaeth o'r fath, wedi eu pennu yn y cofnodion cyfatebol yng ngholofn 2 o'r Tabl hwnnw.

(3) Yn Atodlen 4 ystyr "canolfan ffrwythloni artiffisial" yw mangre—

(a) y mae trwydded mewn grym mewn cysylltiad â hi o dan reoliad 4(1) o Reoliadau 1964, neu

(b) sydd wedi ei chymeradwyo o dan reoliad 2(2) neu (3) o Reoliadau 1992.

Embryonau buchol (casglu, cynhyrchu a throsglwyddo): ffioedd

8.—(1) Mae Atodlen 5 yn nodi'r ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru am weithgareddau mewn perthynas â chais am gymeradwyaeth neu ddeiliad cymeradwyaeth o dan Reoliadau 1995.

(2) Yn Atodlen 5, mae'r ffioedd sy'n daladwy gan geiswyr am gymeradwyaeth o dan Reoliadau 1995 am y gweithgareddau a bennir yng ngholofn 1 o'r Tabl, neu gan ddeiliaid cymeradwyaeth o'r fath, wedi eu pennu yn y cofnodion cyfatebol yng ngholofn 2 o'r Tabl hwnnw.

(3) Mae i'r geiriau a'r ymadroddion a ddefnyddir yn Atodlen 5 yr un ystyr ag yn Rheoliadau 1995.

Gwirio llwythi o anifeiliaid byw mewn arolygfeydd ffin: ffioedd

9.—(1) Mae Atodlen 6 yn nodi'r ffioedd sy'n daladwy pan gynhelir arolygiadau mewn arolygfeydd ffin o lwythi o anifeiliaid byw o drydedd wlad yn unol â rheoliad 15 o Reoliadau 2011.

(2) Yn Atodlen 6—

(a) mae'r ffioedd sy'n daladwy mewn cysylltiad ag arolygu llwyth o anifeiliaid byw a bennir yng ngholofn 1 o Dabl 1 wedi eu pennu yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 2 o'r Tabl hwnnw;

(b) mae'r ffioedd sy'n daladwy mewn cysylltiad ag arolygiadau a gynhelir yn ystod cyfnod a bennir yng ngholofn 1 o Dabl 2 wedi eu pennu yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 2 o'r Tabl hwnnw, ac maent yn daladwy yn ychwanegol at unrhyw ffioedd sy'n daladwy yn rhinwedd is-baragraff (a);

(c) mae'r ffioedd sy'n daladwy mewn cysylltiad â gwiriadau ychwanegol oherwydd peidio â chydymffurfio neu fesurau rheoli ychwanegol gan berson a bennir yng ngholofn 1 o Dabl 3 wedi eu pennu yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 2 o'r Tabl hwnnw, ac maent yn daladwy yn ychwanegol at unrhyw ffioedd sy'n daladwy yn rhinwedd is-baragraff (a).

Dirymu

10. Mae Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd Amrywiol) (Cymru) 2013(**1**) wedi eu dirymu, ac eithrio rheoliadau 1, 4 a 7(1) i (3).

Lesley Griffiths

Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
22 Mai 2018

(**1**) O.S. 2013/1241 (Cy. 133).

ATODLEN 1 Rheoliad 4

Y rhaglenni cenedlaethol rheoli salmonela (milheintiau): Ffioedd

Tabl 1

Ffioedd sy'n daladwy gan y person sydd â gofal dros ddaliad ieir neu dyrcwn, y mae sampl swyddogol wedi ei chymryd ohono, ei phrosesu a'i harchwilio at ddibenion Rheoliad (EC) Rhif 2160/2003	
Colofn 1 *Gweithgaredd*	*Colofn 2* *Ffi (£)*
Amser a dreuliwyd yn cael sampl reoli swyddogol i'w harchwilio mewn labordy (y "ffi amser" yn y Tabl hwn) (yn ogystal â'r ffioedd a bennir isod oni phennir fel arall yng ngholofn 2)	9 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd
Amser a dreuliwyd yn teithio i fangre ac o fangre at ddibenion y gweithgareddau isod	14 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd, hyd at uchafswm o 84
Cymryd sampl reoli swyddogol o haid o ieir dodwy	32
Cymryd sampl rheoli swyddogol o haid o ieir neu dyrcwn bridio	52
Cymryd sampl reoli swyddogol o haid o ieir bwyta (brwyliaid) neu haid o dyrcwn pesgi	72
Archwilio sampl reoli swyddogol mewn labordy	14 am bob sampl a brofwyd (nid yw'r ffi amser yn gymwys)

Tabl 2

Ffioedd sy'n daladwy gan weithredwr labordy mewn perthynas â chymeradwyaeth o dan Erthygl 12 o Reoliad (EC) Rhif 2160/2003	
Colofn 1 *Gweithgaredd*	*Colofn 2* *Ffi (£)*
Prosesu cais am gymeradwyaeth gychwynnol i labordy, neu am adnewyddiad dwyflynyddol o gymeradwyaeth labordy	73

Cynnal arolygiadau a gwaith sicrhau ansawdd yn seiliedig ar nifer y profion y cymeradwywyd y labordy ar eu cyfer	Un prawf	350
	Dau brawf	361
	Tri phrawf	372
	Pedwar prawf	384
Cynnal profion cydweithredol ar gyfer *Salmonela* fel sy'n ofynnol i gael cymeradwyaeth fel labordy profi, a chadw'r gymeradwyaeth honno	34 am bob prawf	

Tabl 3

Ffioedd sy'n daladwy gan y person sydd â gofal dros heidiau dofednod am brofion a gynhelir o dan y protocol samplu ym mhwynt 4(b) o Ran D o Atodiad II i Reoliad (EC) Rhif 2160/2003	
Colofn 1 *Gweithgaredd*	*Colofn 2* *Ffi (£)*
Cynnal profion ar saith o samplau llwch a charthion a gymerir o bob haid	99
Samplu a chynnal profion bacteriolegol ar gaeca ac wyffosydd 300 o adar o bob haid	2,470
Samplu a chynnal profion bacteriolegol ar blisgyn a chynnwys 4,000 o wyau o bob haid	3,080

ATODLEN 2 Rheoliad 5

Y cynllun iechyd dofednod: Ffioedd

Tabl 1

Ffioedd am gofrestru a chymeradwyo sefydliad at ddibenion y cynllun iechyd dofednod	
Colofn 1 *Gweithgaredd*	*Colofn 2* *Ffi (£)*
Amser a dreuliwyd gan swyddog milfeddygol yn cyflawni'r gweithgareddau yn y Tabl hwn (y "ffi amser" yn y Tabl hwn) (yn ogystal â'r ffioedd a restrir isod, oni phennir fel arall yng ngholofn 2)	16 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd
Amser a dreuliwyd gan swyddog milfeddygol yn teithio i fangre ac o fangre aelod o'r cynllun iechyd dofednod ("aelod o'r cynllun" yn y Tabl hwn) at ddibenion y gweithgareddau isod	21 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd, hyd at uchafswm o 126
Cofrestriad blynyddol fel aelod o gynllun	55 (nid yw'r ffi amser yn gymwys)
Cymeradwyaeth blwyddyn gyntaf ar gyfer haid neu ddeorfa aelod o'r cynllun, neu gyfuniad o haid a deorfa aelod o'r cynllun ar un safle, pan gynhelir yr arolygiad gan swyddog milfeddygol	27
Ailgymeradwyo blynyddol ar gyfer haid neu ddeorfa aelod o'r cynllun, neu gyfuniad o haid a deorfa aelod o'r cynllun ar un safle, pan gynhelir yr arolygiad gan swyddog milfeddygol	56
Ailgymeradwyo safleoedd ychwanegol pan fo aelod o'r cynllun yn gwneud cais ar yr un pryd ar gyfer safleoedd lluosog, ac y cynhelir yr arolygiad gan swyddog milfeddygol	31
Ailgymeradwyo blynyddol ar gyfer haid neu ddeorfa aelod o'r cynllun, neu gyfuniad o haid a deorfa aelod o'r cynllun ar un safle, pan gynhelir yr arolygiad gan filfeddyg nad yw'n swyddog milfeddygol	54 (nid yw'r ffi amser yn gymwys)
Ailgymeradwyo safleoedd ychwanegol pan fo aelod o'r cynllun yn gwneud cais ar yr un	29 (nid yw'r ffi amser yn gymwys)

pryd ar gyfer safleoedd lluosog, ac y cynhelir yr arolygiad gan filfeddyg nad yw'n swyddog milfeddygol	

Tabl 2

Ffioedd sy'n daladwy gan weithredwr labordy mewn perthynas â chymeradwyo at ddiben y cynllun iechyd dofednod	
Colofn 1 *Gweithgaredd*	*Colofn 2* *Ffi (£)*
Prosesu cais am gymeradwyaeth gychwynnol ar gyfer labordy, neu am adnewyddiad dwyflynyddol o gymeradwyaeth labordy	73
Prawf hyfedredd mewn cysylltiad â bacterioleg *Salmonela* (*pullorum, gallinarum ac arizonae*)	131 am bob prawf
Prawf hyfedredd mewn cysylltiad â seroleg *Salmonela* (*pullorum, gallinarum*)	321 am bob prawf
Prawf hyfedredd mewn cysylltiad â seroleg *Mycoplasma* mewn ieir (*gallisepticum*)	321 am bob prawf
Prawf hyfedredd mewn cysylltiad â meithriniad *Mycoplasma* (*gallisepticum a meleagridis*)	281 am bob prawf
Prawf hyfedredd mewn cysylltiad â seroleg *Mycoplasma* mewn tyrcwn (*gallisepticum a meleagridis*)	336 am bob prawf

ATODLEN 3 Rheoliad 6

Semen buchol: Ffioedd

Ffioedd sy'n daladwy gan geiswyr a gweithredwyr o dan Reoliadau 2008	
Colofn 1 *Gweithgaredd*	*Colofn 2* *Ffi (£)*
Amser a dreuliwyd gan swyddog milfeddygol yn cyflawni'r gweithgareddau yn y Tabl hwn (yn ogystal â phob un o'r ffioedd a restrir isod)	16 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd
Amser a dreuliwyd gan swyddog milfeddygol yn teithio i fangre ac o fangre at ddibenion y gweithgareddau isod	21 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd, hyd at uchafswm o 126
Ystyried cais i gymeradwyo anifail buchol o dan reoliadau 7 neu 10 o Reoliadau 2008 i'w ddefnyddio mewn canolfan gasglu ddomestig neu mewn mangre sydd heb ei thrwyddedu	20
Ystyried cais o dan reoliad 7 o Reoliadau 2008 i gymeradwyo anifail buchol i'w ddefnyddio mewn canolfan gasglu CE	26
Ystyried cais am drwydded i weithredu canolfan gwarantin CE o dan reoliad 4 o Reoliadau 2008	29
Ystyried cais am drwydded i weithredu canolfan gasglu CE neu ddomestig, neu ganolfan storio CE neu ddomestig o dan reoliad 4 o Reoliadau 2008	27
Cynnal archwiliad o ganolfan semen buchol o dan reoliad 40 o Reoliadau 2008	17
Cynnal archwiliad rheolaidd o anifail buchol cymeradwy at ddefnydd domestig neu ddefnydd y CE o dan reoliad 33 o Reoliadau 2008	23

ATODLEN 4 Rheoliad 7

Semen moch: Ffioedd

Ffioedd sy'n daladwy o dan Reoliadau 1964 a Rheoliadau 1992	
Colofn 1 *Gweithgaredd*	*Colofn 2* *Ffi (£)*
Amser a dreuliwyd gan swyddog milfeddygol yn cyflawni'r gweithgareddau yn y Tabl hwn (yn ogystal â phob un o'r ffioedd a restrir isod)	16 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd
Amser a dreuliwyd gan swyddog milfeddygol yn teithio i fangre ac o fangre at ddibenion y gweithgareddau isod	21 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd, hyd at uchafswm o 126
Cais i gymeradwyo baedd i ddarparu semen at ddibenion ffrwythloni artiffisial	
Ystyried cais i gymeradwyo baedd o dan reoliad 2(1) o Reoliadau 1964 at y diben o gasglu semen	31 am bob baedd
Profi baedd yn rheolaidd	
Profi baedd yn rheolaidd mewn canolfan ffrwythloni artiffisial	23 am bob baedd
Gweithredu canolfan ffrwythloni artiffisial	
Ystyried cais oddi wrth weithredwr am drwydded neu gymeradwyaeth ar gyfer canolfan ffrwythloni artiffisial	27
Ystyried cais i gymeradwyo newid mewn mangre drwyddedig neu fangre gymeradwy (yn unol ag amodau sydd ynghlwm â'r drwydded neu gymeradwyaeth)	25
Archwiliad rheolaidd o ganolfan ffrwythloni artiffisial	17

ATODLEN 5 Rheoliad 8

Embryonau buchol (casglu, cynhyrchu a throsglwyddo): Ffioedd

Ffioedd sy'n daladwy o dan Reoliadau 1995	
Colofn 1 *Gweithgaredd*	*Colofn 2* *Ffi (£)*
Amser a dreuliwyd gan swyddog milfeddygol wrth gyflawni'r gweithgareddau a restrir yn y Tabl hwn (yn ogystal â phob un o'r ffioedd a restrir isod)	16 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd
Amser a dreuliwyd gan swyddog milfeddygol yn teithio i fangre ac o fangre at ddibenion y gweithgareddau isod	21 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd, hyd at uchafswm o 126
Ystyried cais i gymeradwyo neu ailgymeradwyo: - tîm trosglwyddo embryonau buchol; - storfa o dan reoliad 13 o Reoliadau 1995; - storfa o dan reoliad 16 o Reoliadau 1995; - storfa, a goruchwylydd y storfa honno, o dan reoliadau 16 a 19 o Reoliadau 1995; neu -un tîm casglu neu gynhyrchu embryonau buchol (gan gynnwys arolygu labordy neu beidio)	28
Ystyried cais gan yr un ceisydd i gymeradwyo pob labordy neu storfa ychwanegol pan gaiff yr arolygiad ei gwblhau ar yr un diwrnod	9
Ystyried cais i ailgymeradwyo labordy neu storfa yn dilyn unrhyw newidiadau	25
Cynnal arolygiad rheolaidd o gofnodion un tîm cynhyrchu, casglu neu drosglwyddo embryonau buchol ac ailarolygu un labordy neu storfa	17
Cynnal arolygiad rheolaidd o gofnodion pob tîm cynhyrchu, casglu neu drosglwyddo embryonau buchol ychwanegol,	4 am bob tîm ychwanegol a phob labordy neu storfa ychwanegol

ac ailarolygu pob labordy neu storfa ychwanegol	

ATODLEN 6 Rheoliad 9

Gwirio llwythi o anifeiliaid byw o drydydd gwledydd mewn arolygfeydd ffin: Ffioedd

Tabl 1

Ffioedd am arolygu llwythi o anifeiliaid o drydydd gwledydd a gwirio dogfennau mewnforio mewn arolygfeydd ffin yn unol â rheoliad 15 o Reoliadau 2011	
Colofn 1 *Arolygu math o anifail a gwirio dogfennau*	*Colofn 2* *Ffi (£) am bob llwyth*
Dofednod ac adar hela bach	65
Wyau dofednod	38
Ratidau	65
Adar caeth	64
Pysgod byw, anifeiliaid dyfrol a gwenyn	32
Cwningod a chnofilod	29
Pryfed eraill, infertebratau, ymlusgiad ac amffibiaid	26
Anifeiliaid anwes heb ddatganiad	57
Equidae	62
Da byw a ffermir, gan gynnwys gwartheg, defaid, geifr, camelidau, moch a baeddod gwyllt	146
Anifeiliaid nas cynhwysir mewn unrhyw gategori arall	55
Gwirio dogfennau ar gyfer trawslwytho	52

Tabl 2

Ffioedd ychwanegol ar gyfer arolygiadau penodol	
Colofn 1 *Y cyfnod pryd y cynhaliwyd yr arolygiad*	*Colofn 2* *Ffi (£) am bob llwyth*[(2)]
Arolygiad y tu allan i oriau[(1)]	140 am bob llwyth[(2)]
Arolygiad yn ystod penwythnos neu ŵyl gyhoeddus[(3)]	185 am bob llwyth[(2)]
Amser a dreuliwyd gan swyddog milfeddygol yn teithio i fangre ac o fangre	16 am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd, hyd at uchafswm o 64 am bob ymweliad

(1) ystyr "y tu allan i oriau" yw cyn 8.30 a.m. neu ar ôl 5 p.m. ar ddiwrnod gwaith.

(2) ystyr "llwyth" yw un neu ragor o lwythi o anifeiliaid sy'n tarddu o'r un wlad, sydd wedi cyrraedd ar yr un cyfleuster cludo, ac wedi eu cyflwyno ar gyfer eu gwirio yn yr arolygfa ffin ar yr un pryd, gan berson sy'n gyfrifol am eu mewnforio.

(3) ystyr "gŵyl gyhoeddus" yw Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith neu ddiwrnod sy'n ŵyl banc yng Nghymru o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(**1**).

Tabl 3

Ffioedd ar gyfer gwiriadau ychwanegol oherwydd achosion o beidio â chydymffurfio neu fesurau rheoli ychwanegol	
Colofn 1 *Y personau sy'n ymgymryd â'r gwiriad ychwanegol*	*Colofn 2* *Ffi (£) am bob chwarter awr neu ran o chwarter awr a dreuliwyd*
Swyddog milfeddygol – gwiriadau y tu allan i oriau[(1)]	17
Swyddog milfeddygol – gwiriadau ar benwythnosau neu wyliau cyhoeddus[(2)]	23
Swyddog milfeddygol – gwiriadau ar bob adeg arall	11
Amser a dreuliwyd gan swyddog milfeddygol yn teithio i fangre ac o fangre	16, hyd at uchafswm o 64 am bob ymweliad

(1) ystyr "y tu allan i oriau" yw cyn 8.30 a.m. neu ar ôl 5 p.m. ar ddiwrnod gwaith.

(**1**) 1971 p. 80.

(2) ystyr “gŵyl gyhoeddus” yw Dydd Nadolig, Dydd Gwener y Groglith neu ddiwrnod sy’n ŵyl banc yng Nghymru o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

©ⓗHawlfraint y Goron 2018

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2018

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

©ⓗHawlfraint y Goron 2018

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2018

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

Printed pages	Cover Price (mono)
1-6	£4.25
7-31	£6.00
32-60	£10.00
61-71	£11.00
72-84	£14.25
85-96	£16.00
97-112	£16.50
113-128	£19.00
129-144	£20.75
145-164	£23.25
165-180	£25.50
181-220	£27.50
221-260	£29.50
261-299	£32.75
300-399	£39.25
400-499	£46.25
500+	£0.070 per printed page

NOTE: Printed Pages includes the Back Page

1234567890

£0.00

W2018????? 04/2018

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2018/???